

'CARTHEN PWLLHELI' A MELIN CAERNARFON A PHONTRUG

Diddorol oedd darllen erthygl ddiweddaraf Dafydd Lloyd Hughes, sy'n parhau ar drywydd hanes Carthen Pwllheli. Caniatuach i mi ychwanegu mwy o ffeithiau i'r saga hon!

Brodor o'r Ro Wen yn nyffryn Conwy oedd Thomas Roberts, a'i wraig, Margaret, yn hannu o deulu'r Llwyncoed, Cwm y Glo, yn Arfon. Gwehydd oedd Thomas Roberts, ac yr oedd y teulu wedi symud i Gaernarfon erbyn 1841, ac yn byw yn Hen Walia. Yn ychwanegol i'r rhieni, roedd tri o feibion – Robert, Llewelyn (gwehyddion fel eu tad) a Thomas (teiliwr) – a John, mab Robert, a oedd yn bedair oed ar y pryd. Hwn oedd y John Roberts a fu'n gyfrifol am gynllunio 'Carthen Pwllheli'. Er mai dyma unig aelodau'r teulu sydd wedi eu cofnodi yn Hen Walia ar Gyfrifiad 1841, yr oedd aelodau eraill hefyd, sef John, mab arall, a dwy o ferched, Sarah ac Ellen.

Geni John Roberts yn South Penrallt

Er mai yn Hen Walia roedd y teulu'n byw yn 1841, mae lle i gredu mai yn South Penrallt y sefydlodd Robert Roberts (tad John) gyda'i wraig, Jane (merch John Hughes, mwyntwr copr o Lanberis a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yng ngweithfeydd y Gogarth ger Llandudno). Dywed John Roberts ei hun, mewn nodiadau bywgraffyddol: "*ganwyd fi, yr unig blentyn, yr unfed dydd ar ddeg o Fawrth 1837 yn un o dai y palmant, fel y gelwid hwy; y tŷ nesaf i'r hen Owen Hughes y llifiwr, ym mhen 'rallt y Capel, neu South Penrallt.*" Y capel y cyfeiria ato oedd Capel Moriah (M.C.) Bu farw Jane yn wraig ifanc un ar hugain oed o fewn rhyw ddeng mis i eni John, a symudodd y tad gwedd a'i fab i Hen Walia. Yno, gyda'i daid a'i nain y magwyd John Roberts.

Mac'n amlwg fod Robert Roberts yn cadw gweithdy yn South Penrallt. Ceir cadarnhad o hyn mewn rhifyn o'r *Caernarvon and Denbigh Herald* yn mis Mawrth 1836, flwyddyn cyn geni John. "*On Saturday, between eight and nine at night, the workshop of Robert Roberts, weaver, of South Penrallt, was broken into, and £3 in silver stolen. The thieves were not found.*" Mae Cyfarwyddiaduron Masnachol y cyfnod hefyd yn cadarnhau fod gweithdy ganddo yn South Penrallt. Tua'r un pryd, roedd brawd yng nghyfraith iddo, John Taggart (gŵr Sarah) yn cadw busnes teiliwr a dilledydd yn Stryd y Porth Mawr.

Robert Roberts yn wehydd llwyddiannus

Bu Robert Roberts yn llwyddiannus iawn fel wehydd yn nhref Caernarfon, a thystia ei fab ei fod "*yn rhagori ar y rhan fwyaf o wehyddion y Dywysogaeth.*" Yr oedd yn "*hyddyss yn y modd o droi allan wlaneni, gwrthbannau, cwrldiau, defnydd husian merched a brethynau a dillad meibion.*"

Erbyn 1850 roedd rhieni Robert (a thaid a'nain gofalus John) wedi marw, ac erbyn Cyfrifiad 1851, dim ond Robert Roberts a'i fab sy'n byw yn Hen Walia. Yr oedd Robert erbyn hyn wedi sefydlu ffatri ym mhen uchaf Stryd y Llyn, yn llosgi glo a chynhyrchu stêm i droi'r peiriannau, ac yn cyflogi saith o weithwyr. Dyma'r cyfnod pryd y dechreuodd Robert Roberts ennill enw iddo i hun fel gwneuthurwr gwlanenni a dilladau. Yn 1850 yn Eisteddfod Aberffraw, Môn, daeth â'r wobwr gyntaf yn ôl i Gaernarfon

am ystyffiau Cymreig. Flwyddyn yn ddiweddarach, yn Eisteddfod Porthmadog (y 'Madoc National') enillodd ddwy wobwr am ddillad: gini am "*best linsey waistcoat piece*" a thair gini am "*best lady's linsey dress piece and apron*". Roedd yn cystadlu dan y ffugenw 'Cymro', a rhoir ei gyfeiriad fel Llanberis Road, Caernarfon.

Derbyn Tlws am ei waith yn y Palas Grisial

Anfonodd hefyd samplau o'i ddefnyddiau Cymreig i Arddangosfa Fawr y Palas Grisial yn Llundain yn 1851, a derbyniodd dlws a thystysgrifau am ei waith creffittus. Yn ôl ei fab, "*rhoddodd hyn symbyliad neilltuol i'r fasnach, a daeth y defnyddiau Cymreig yn ffasiynol yn y llys ac ymhlith boneddigesau pennaf Prydain Fawr a'r Iwerddon. Yr oedd yr alwad am rai blynyddoedd wedi hyn yn hynod; archebion yn dyfio i mewn o bob rhan o'r deyrnas.*" Mae enwau nifer o'r prynwyr yn cael eu rhestru, sef y Duchess of Cambridge, Tywysog Cymru, y Dywysoges Louise, a Lady Russell, Countess Caernarvon. Ymhlith y prynwyr o Gymru, enwir Gwenynen Gwent o'r de, Lady Erskine, Conwy a nifer o wragedd byddigions tref Caernarfon. Rhoir sylw arbennig i un ohonynt, sef Miss Finchett Maddock, Cae Gwyn (neu Richmond Hill). Dywedir fod ganddi hi ddi-ddordeb arbennig yng ngwaith Robert Roberts, ac yn ymweld â'i ffatri yn rheolaidd i "*arolygu y modd yr oedd y dynion yn cyflawni eu gwaith.*"

Ennill mewn nifer o eisteddfodau

Dros y blynyddoedd nesaf bu Robert Roberts yn llwyddiannus mewn nifer o eisteddfodau ledled gogledd Cymru, gan gynnwys Rhuddlan, Rhyl, Dinbych, Caernarfon, Treffynnon, Bangor – a dwy yn y de, sef Aberystwyth a Chaerfyrddin.

Yr oedd hefyd â'i lygad ar ddulliau eraill o weud arian. Erbyn 1853 roedd galw am gerrig toi, a bu cynnydd yn y fasnach lechi. Denwyd Robert Roberts a'i ddau frawd yng nghyfraith – John Taggart a Thomas Rawson (pried Ellen, ac arolygwr gweithfeydd copr yn Llanberis a Drws y Coed) – i brydlesu chwarel Pont Rhyd Goch ger Y Ffôr, Pwllheli. Trodd yr anturiaeth yn fethiant fodd bynnag, a cholodd John Taggart a Thomas Rawson eu harian. Yn ffodus, roedd Robert Roberts wedi parhau â'r ffatri yng Nghaernarfon, a gallodd barhau i ennill bywoliaeth er yn talu dyledion ar fethiant y chwarel.

Tra'n byw gyda'i daid a'i nain yn Hen Walia, derbyniodd John Roberts ei addysg mewn amryw o wahanol ysgolion tref Caernarfon; yn eu plith, ysgol forwriaethol enwog Mrs Edwards yn y Stryd Newydd, a hefyd gyda John Wynne yn Stryd Pedwar a Chwech, ac yn ddiweddarach ym Mhenrallt a Maesinela. Yr oedd â'i fryd ar fynd yn forwr, ac aeth y John ifanc ati i ddwyn perswād ar ei ewythr John Taggart i gael gair gydag un o gapteiniaid y dref gyda golwg ar gael ei brentisio ar fwrdd llong y Royal William. Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, rhoes ei dad derfyn ar y drafodaeth honno!



Snowdon Factory, a adeiladwyd gan John Roberts ar dir Cae Dôl Eiddyn, Pontrug.

(Llun drwy gamiatâd Gwasanaeth Archifau Gwynedd)

John Roberts yn cael cynnig bod yn feddyg

Gan fod ei dad yn eithaf cefnog (cyn methiant y chwarel yn Y Ffôr) cynigiodd i John amryw o alwedigaethau eraill megis meddyg, cyfreithiwr neu beiriannydd, ond "*o'r diwedd, rhwyg bodd ac anfodd fel bachgen wedi sori, cymerais afael yn yr un alwedigaeth ac yntau.*" Felly, erbyn 1861, a John Roberts yn wr ifanc pedair ar hugain oed, yn briod, a dau o blant ifanc i'w magu, cawn ef yn byw yn Stryd y Llyn, yn disgrifio i hun fel "*linen weaver*".

Bu'n gweithio gyda'i dad, nes marwolaeth Robert Roberts ym mis Medi 1870, ac erbyn cyfrifiad 1871, John Roberts oedd yn gyfrifol am y ffatri yn Stryd y Llyn (cyfeiriad y cartref oedd 3 Pool Lane), ac erbyn hyn yn cyflogi 14 o weithwyr. Yr oedd yn dad i bedair o enethod – Jane, Mary, Margaret ac Ellen Rawson – ond roedd ei wraig gyntaf wedi marw, ac yr oedd bellach yn briod am yr eilwaith, â merch o'r enw Catherine. (Roedd chwech o blant iddynt o'r ail briodas).

Rywbryd yn ystod y cyfnod o tua 1850 hyd 1870, ceisiwyd adeiladu melinau eraill gan Robert Roberts. Yn ôl tystiolaeth John Roberts, peidiodd ei dad â defnyddio'r peiriannau stêm oherwydd "*drudaniaeth y glo*", a gwnaeth gais i Mr Millington, goruchwyliwr Assheton Smith o'r Faenol, am dir ar lan afon Saint i adeiladu melin. Cafwyd sâl ger Pont y Saint ar y morfa, ond gwrthwynebydd hynny gan gorfforaeth tref Caernarfon oherwydd yr honiad mai eiddo'r dref oedd y tir. (Bu cryn ddadlau ynglŷn â pherechnogaeth tir y morfa dros y blynyddoedd, a hynny mor ddiweddar â'r llynedd pan gafwyd achos ynglŷn â hawliau pysgota'r afon oddi ar y morfa). O ganlyniad i'r gwrthwynebiad, cafwyd tir ar eiddo stâd Coed Alun gerllaw Melin Seiont, ond unwaith eto, daeth gwrthwynebiad gan deulu'r Foundry a honnai y byddai'r felin newydd yn amddifadu eu melin hwy o ddŵr. Canlyniad yr holl wrthwynebiadau oedd i Mr Millington gynnig llain arall o dir ar fferm Tyddyn y Pandy gerllaw llyn yn afon Saint a elwid yn Llyn Garnons, ac yn agos i Bont Peblig ar y ffordd yn arwain o'r dref i gyfeiriad pentrefi Cacathro a'r Waunfawr. Ni fu'r felin ar ei thraed yn hir chwaith, oherwydd tynnwyd hon i lawr gan John Roberts wedi marwolaeth ei dad "*gan faru fod yn well ac yn fwy manteisiol cael y gwaith yn y dre yn fy ymyl, a'r dynion dan fy arolygaeth.*" Mae'n amlwg felly fod y ffatri yn Stryd y Llyn, Caernarfon wedi parhau i